

Canllawiau

Cod Ymddygiad a Moeseg i Gyfieithwyr ar y Pryd y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Y safonau moesegol a'r ymddygiad proffesiynol sy'n ofynnol gan holl gyfieithwyr ar y pryd y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

1. Cyflwyniad

Mae'r cod hwn a ddiweddarwyd yn berthnasol i'r contractau Gwasanaethau Iaith newydd a aeth yn fyw ar 5 Hydref 2026.

Mae'r cod yn disgrifio'r safonau gwasanaeth cyhoeddus a gwerthoedd moesegol sy'n sail i waith y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) ac mae'n adlewyrchu arferion gorau a chanllawiau presennol sy'n rhaid i holl gyfieithwyr ar y pryd eu dilyn.

Fel corff a ariennir gan arian cyhoeddus, mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddyletswydd i osod a chynnal y safonau ymddygiad ac uniondeb uchaf ac mae'n disgwyl y safonau uchaf o ymddygiad corfforaethol a chyfrifoldeb gan ei weithwyr a phobl dan gontract i weithio iddo.

Disgwylir i holl gyfieithwyr ar y pryd weithredu fel y nodir yn y [Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus](#).

Yn ogystal â hyrwyddo safonau ymddygiad busnes a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus, mae'r polisi hwn yn anelu i warchod cyfieithwyr ar y pryd rhag unrhyw awgrym o fod yn llwgr, yn unochrog, neu'n anonest drwy ddarparu fframwaith clir y gall y sefydliad ddarparu arweiniad a sicrwydd bod ei swyddogion yn ymddwyn gyda gonestrwydd, uniondeb a chywirdeb

Dylid darllen y cod ar y cyd â holl bolisiâu perthnasol yr MoJ a ddatblygir a chytunir yn unol â'r egwyddorion a bennir yn y cod hwn.

1.1 Moeseg

At ddibenion y cod hwn, mae cyfeiriadau at gorff comisiynu yn gyfeiriadau at y sefydliad sydd angen gwasanaethau cyfieithydd ar y pryd.

Rhaid i bob cyfieithydd ar y pryd:

1. bob amser ymddwyn gyda gonestrwydd, cynnal safonau uchel a chynnal eu hunain mewn modd proffesiynol a moesegol, gan gynnwys pan fyddant yn gweithio gyda chyfieithwyr ar y pryd eraill i gwblhau archeb
2. ymgymryd â'u gwaith mewn modd diduedd a datgelu unrhyw fuddiant personol, fel buddiant ariannol, busnes, cysylltiedig â'u teulu neu sy'n hysbys iddyn nhw, fel bod y corff comisiynu yn gallu asesu os yw hyn yn golygu bod gwrthdaro buddiannau posibl gynted ag y byddant yn ymwybodol ohono. Os bydd y corff comisiynu yn ystyried bod y gwrthdaro yn annerbyniol, mae'n bosibl y gofynnir i'r cyfieithydd ar y pryd dynnu yn ôl o'r archeb.

3. peidio derbyn unrhyw rodd neu wobr a fyddai'n cael ei ystyried fel cymhellant i weithredu yn erbyn eu rhwymedigaethau proffesiynol.
4. peidio derbyn taliad am wybodaeth am y corff comisiynu neu fanylion eu harcheb neu wybodaeth a rennir fel rhan o'r archeb.
5. hysbysu'r corff comisiynu ar unwaith am unrhyw berthynas flaenorol gyda unrhyw barti mewn achos yn yr archeb
6. hysbysu'r corff comisiynu ar unwaith os ydynt wedi bod yn ymwneud ag archeb penodol yn flaenorol
7. datgelu i'r corff comisiynu os ydynt wedi bod yn rhan o archeb flaenorol gyda'r un cleient
8. datgelu i'r corff comisiynu unrhyw gofnod troseddol neu wybodaeth arall a all eu gwneud yn anaddas ar gyfer archeb penodol. Yn ôl disgresiwn y corff comisiynu, gall cyfieithwyr ar y pryd gyda chofnod troseddol gael eu heithrio rhag derbyn rhai archebion.
9. peidio gwahaniaethu rhwng partïon (i'w mantais neu anfantais) naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a gweithredu'n ddiudedd bob amser a pheidio gweithredu mewn unrhyw ffordd a all arwain at niwed neu ffafriaeth ar unrhyw sail, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, grefydd neu gred, hil, lliw, tarddiad ethnig, teyrngarwch gwleidyddol, rhywedd, ailbennu rhywedd, oed, cenedligrwydd, cyfeiriadedd rhywiol neu anableddeu heblaw fel y gorfodir er mwyn cyfieithu'n ffyddlon, dehongli fel arall drosglwyddo ystyr
10. ymateb o fewn yr amserlen ofynnol i unrhyw honiadau o gamymddwyn neu wyro oddi wrth y cod hwn
11. peidio ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n debygol o danseilio ffydd yn yr awdurdod, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, fod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, camymddwyn rhywiol, trais, bygwth neu ymddygiad difriol.
12. monitro addasrwydd i ymgymryd â gwaith a sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu hatal os digwydd y byddai'n niweidiol i iechyd corfforol neu feddyliol
13. bod yn wyladwrus a sylwi ar ymddygiad Defnyddwyr y Gwasanaeth, gan sicrhau yr hysbysir y swyddog perthnasol os sylwir ar arwyddion o orbryder, gofid neu dynnu sylw.
14. os byddant yn credu bod plentyn neu oedolyn bregus mewn perygl o niwed, amlygu unrhyw feysydd o bryder, arferion gwael, neu faterion diogelu posibl i'r contractwr y gwnaed yr archeb drwyddyn nhw, a rhoi gwybod am y mater diogelu yn unol â pholisi diogelu'r cyflenwyr.
15. cadw cofnod digidol o gamau a rhesymau dros rannu gwybodaeth am unigolyn, i'w rhannu gyda'r awdurdod ar gais.

16. ymddwyn yn broffesiynol ac yn foesegol bob amser, o dderbyn i gwblhau archebion a wnaed drwy'r cyflenwr dan gcontract gan y Corff Comisiynu.
17. os ydynt yn aelod o gorff proffesiynol, bob amser gweithredu yn unol â'u safonau moesegol.
18. gwneud beirniadaeth ystyriol a chilir am beth i'w wneud mewn achosion ble gallai rhannau o'r 'Cod' hwn wrthdaro gyda'i hun, fel rhannu gwybodaeth gyfrinachol er mwyn atal niwed. Sicrhau y gellir cyfiawnhau pob penderfyniad yn briodol.

1.2 Cyfrinachedd

Rhaid i bob cyfieithydd ar y pryd:

1. drin yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn ystod archeb yn gyfrinachol ac oni bai bod angen datgelu yn ôl y gyfraith, sicrhau nad yw unrhyw wybodaeth yn cael ei rhannu gydag unrhyw drydydd parti heb ganiatâd a fynegwyd gan y corff comisiynu
2. sicrhau bod holl wybodaeth a deunydd yn cael ei ddefnyddio at y diben a awdurdodwyd gan y corff comisiynu
3. sicrhau bod yr holl ddeunydd yn cael ei ddychwelyd i'r corff comisiynu ar ddiwedd archeb
4. cydymffurfio gyda holl Ddeddfwriaeth Diogelu Data
5. peidio defnyddio unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod archeb at unrhyw ddiben heblaw yr hyn a awdurdodwyd
6. diogelu unrhyw ddogfen, recordiad neu gyfrwng a ddarparwyd yn ystod archeb, gan sicrhau nad yw'n cael ei ddatgelu na'i gopïo a'i fod yn cael ei ddychwelyd ar ddiwedd yr archeb.

1.3 Gallu proffesiynol

Rhaid i bob cyfieithydd ar y pryd:

1. bob amser gydweithredu gydag unrhyw weithgarwch ansawdd a sicrwydd a gynhaliwyd gan neu ar ran yr MoJ
2. derbyn archebion ar gyfer ieithoedd y gallant ddangos bod ganddynt y lefel ofynnol o allu yn unig a gwrthod unrhyw waith y tu hwnt i'w lefel o allu, naill ai'n ieithyddol neu oherwydd diffyg gwybodaeth arbenigol
3. bod yn rhugl a dangos dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ffurf ysgrifenedig a llafar o ieithoedd, gan gynnwys tafodieithoedd rhanbarthol, ymadroddion llafar, mynegiant idiomatig a thermau technegol

4. cynnal sgiliau iaith a sgiliau ieithyddol proffesiynol perthnasol eraill er mwyn cyflawni gwasanaethau i'r safon ofynnol
5. bod yn gyfarwydd gydag unrhyw gefndir diwylliannol sy'n berthnasol i'r archeb
6. deall gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol y system gyfiawnder fel bo'r angen ar gyfer y corff comisiynu perthnasol
7. peidio dirprwyo unrhyw waith i drydydd partïon na derbyn unrhyw waith ar ran rhywun arall
8. peidio dwyn anfri ar yr awdurdod na'r proffesiwn yn gyffredinol drwy ymddwyn mewn modd nad yw'n cyd-fynd â'r safonau uchel a ddisgwylir gan unigolyn proffesiynol.
9. cynnal cymwysterau, tystysgrifau a lefelau diogelwch dilys cyn derbyn archebion gyda'r gofynion hyn yn ôl y gofyn gan y corff comisiynu perthnasol

1.4 Cyfieithu ar y pryd wyneb yn wyneb ac o bell

Rhaid i bob cyfieithydd ar y pryd:

1. wirio pwy ydyn nhw ar gais gan y corff comisiynu drwy ddefnyddio bathodyn adnabod cyfredol.
2. wisgo eu bathodyn adnabod bob amser pan maent yn cyfieithu ar y pryd
3. wirio dilysrwydd unrhyw gliriad diogelwch/lefelau diogelwch a ddatganwyd pan ofynnir gan y corff comisiynu
4. cyrraedd y lleoliad yn barod i ddechrau cyfieithu ar y pryd ar yr amser a ofynnwyd drwy hysbysu aelod o staff eu bod wedi cyrraedd fel y gellir cofnodi'r amser yn gywir.
5. cyrraedd y lleoliad gyda'r amserlen swyddogol
6. sicrhau bod holl amserlenni yn cynnwys gwybodaeth gywir a phaidio gwneud hawliadau twyllodrus o'r amser gweithio
7. sicrhau bod holl amserlenni yn cael eu cymeradwyo gan aelod o staff priodol o'r corff comisiynu cyn gadael y lleoliad archebu
8. cydymffurfio gyda threfniadau diogelwch y lleoliad a fynychir ganddynt
9. aros drwy gydol cyfnod yr archeb neu nes y rhyddheir gan y corff comisiynu
10. wrth dderbyn archebion cefn wrth gefn, dylid derbyn ail archeb o fewn pellter rhesymol i sicrhau y gallant gwblhau'r archeb gyntaf a chyrraedd ar gyfer yr ail un ar yr amser a ofynnwyd
11. gwisgo'n briodol ar gyfer pob archeb
12. tyngu llw neu roi cadarnhad os rhoddir cyfarwyddyd i wneud hynny

13. ar gyfer archebion o bell, sicrhau eu bod mewn amgylchedd diogel, heb sŵn gydag ystyriaeth lwyr o ganllawiau diogelu data.

1.5 Cyfieithu ar y pryd

Rhaid i gyfieithwyr ar y pryd:

1. gyfieithu ar y pryd yn ddiuedd rhwng yr amrywiol bartïon, gan gymryd camau rhesymol i sicrhau cyfathrebu effeithiol a dealltwriaeth glir
2. cyfleu'r union ystyr o'r hyn a ddywedwyd gan bob parti, heb wneud unrhyw newidiadau neu adael unrhyw beth allan yn y cynnwys; gan ymyrryd i atal camddealltwriaeth posibl yn unig. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir rhoi crynodeb (na ddylai mewn unrhyw ffordd newid ystyr yr hyn a ddywedwyd) os gofynnir gan y corff comisiynu
3. hysbysu'r corff comisiynu ble profir anawsterau gyda thafodiaith, termau technegol neu ddiffyg gwybodaeth gefndirol berthnasol a all amharu ar eu gallu i ymgymryd â'r archeb. Os na ellir datrys y materion hyn er boddhad y corff comisiynu, dylai'r cyfieithydd ar y pryd dynnu yn ôl o'r archeb.
4. peidio rhoi cyngor cyfreithiol na chyngor arall na mynegi barn wrth unrhyw un o'r partiön y tu hwnt i'w rôl a'u dyletswyddau fel cyfieithwyr ar y pryd
5. gofyn i'r partiön perthnasol ddarparu amgylchedd sy'n ffafriol ar gyfer cyfieithu ar y pryd, fel sicrhau y gellir clywed pob parti'n glir. Rhaid i'r cyfieithydd ar y pryd hysbysu'r partiön perthnasol os yw'r amgylchedd yn ymddangos yn anaddas i'r diben.

1.6 Cyfryngau cymdeithasol

Rhaid i bob cyfieithydd ar y pryd:

1. fod yn ymwybodol bod gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn fforymau cyhoeddus ac ni ddylid cymryd y bydd eu cyfraniadau'n parhau'n breifat. Dylai holl gyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol gydymffurfio gyda pholisïau cyfryngau cymdeithasol a chysylltiol perthnasol y sefydliad
2. atal rhag cynnwys na llwytho unrhyw beth ar wefannau cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas ag archeb mewn gwrandawriad llys neu leoliadau, o'r gorffennol, presennol, neu'r dyfodol, ble gall y mater a drafodwyd gael ei ystyried yn gyfrinachol neu ddim at ddefnydd y cyhoedd.